Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2020

www.steddfota.org

CYMRAEG

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Blwyddyn arall wedi mynd heibio yn hanes y Gymdeithas, blwyddyn sydd wedi bod yn eitha' gwahanol ar y cyfan! Bu ein stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst yn un brysur iawn, gan i ni gynnal nifer o weithgareddau nodedig ar ein stondin. Efallai'r un weithgaredd sydd yn sefyll yn y cof yw lansio testunau llenyddol Eisteddfod Caerdydd, eisteddfod newydd sydd wedi ei sefydlu fel gwaddol yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol 2018 yn y ddinas. Daeth criw o bobl at ei gilydd er mwyn trefnu'r Eisteddfod a gafodd ei chynnal ym mis Ionawr eleni - un a fu'n llwyddiannus iawn.

Ers canol mis Mawrth does yr un eisteddfod wedi cael ei chynnal, heblaw am Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen. Fel arfer ar y dydd Mercher wedi'r Pasg byddai Capel y Groes, Llanwnnen dan ei sang â'r eisteddfod flynyddol yn cael ei chynnal. Roedd yr holl gynlluniau yn eu lle ar gyfer eisteddfod 2020, ond yn anffodus bu'n rhaid canslo ychydig o wythnosau cyn y diwrnod mawr. Ond wedyn fe ddechreuon nhw feddwl….tybed a fyddai modd cynnal eisteddfod ychydig yn wahanol eleni, er gwaetha' COVID-19…..beth am eisteddfod ddigidol falle? Cyrhaeddodd diwrnod yr eisteddfod – y 15fed o Ebrill, ac yn hytrach na'r capel, tudalen Facebook yr eisteddfod oedd canolbwynt y cystadlu gyda channoedd yn gwylio. Roedd fideos o'r holl ganu a llefaru a'r gwaith celf a llên yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Facebook Eisteddfod Capel y Groes, a'r canlyniadau hollbwysig hefyd yn cael eu postio'n rheolaidd! Oedd, mi roedd hi'n eisteddfod 'ychydig yn wahanol i'r arfer, a braf oedd gweld y sylw a roddwyd iddi ar y cyfryngau. Cafwyd eitemau ar newyddion radio a theledu, rhaglen Shân Cothi ar Radio Cymru a gwefannau Golwg360 a BBC Cymru Fyw, heb sôn am yr holl sylw ar y cyfryngau cymdeithasol. Taenu ychydig o lawenydd yn y cyfnod rhyfedd hwn oedd y nod, ac rwyf yn siŵr eu bod nhw wedi llwyddo. Y gobaith yw y bydd yr holl sylw yma'n hwb i'r eisteddfod pan fydd pethau'n dychwelyd i'r drefn arferol yn 2021.

Felly dyma estyn her i Bwyllgorau Eisteddfodau eraill i ddilyn patrwm Eisteddfod Capel y Groes. Mae canllawiau ar sut i weithredu hyn i'w gweld ar ein gwefan ni. Braf yw gallu nodi bod un Eisteddfod leol yn cychwyn o'r newydd ym mis Awst eleni – Eisteddfod y Rhondda – ac mae'n nhw'n mynd ati i gynnal eu heisteddfod gyntaf ar-lein. Dyma newyddion calonogol - pob hwyl iddynt yn wir!

Rydym wedi gweld cynnydd eto yn y bobl sy'n defnyddio ein tudalen "Facebook" a "Twitter" - dau gyfrwng sydd yn ychwanegu at y modd yr ydym yn medru hysbysebu negeseuon a chysylltu gydag eraill yn rhwydd ac am ddim. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r cyfryngau hyn er mwyn ehangu'r neges am waith y Gymdeithas. Hefyd mae mwy o bobl wedi cofrestru i dderbyn 'Steddfota, sef newyddlen y Gymdeithas, yn ystod y flwyddyn, a hynny drwy'r post a thrwy ebost. Hyn eto yn brawf bod y diddordeb mewn digwyddiadau eisteddfodol ar i fyny. Mae ein gwefan wedi bod o ddefnydd yn ystod y cyfnod anodd hwn hefyd, gyda'r wybodaeth diweddaraf ynglyn â sefyllfa'r eisteddfodau yn cael ei nodi a'i ddiweddaru er budd y defnyddwyr.

Gobeithio'n wir y bydd yr holl gyfyngiadau wedi cael eu codi yn fuan a bydd eisteddfodau yn dechrau cael eu trefnu eto, gan fod cynnal eisteddfodau lleol yn bwysig er mwyn bwydo'r ddwy Eisteddfod Genedlaethol. Heb y rhai lleol ni fyddai modd cynnal y ddwy fawr. Felly cofiwch gefnogi yn lleol yn gyntaf ac wedyn yn genedlaethol. Mae angen yr Eisteddfodau lleol hyn ar Gymru benbaladr i gadw'r traddodiad yn fyw.

Wrth derfynu rwyf am dalu teyrnged enfawr i'm cyd swyddogion, i aelodau o'r pwyllgor ac i Shân a Lois yn bennaf am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas, ac wrth gwrs er lles ein heisteddfodau ym mhob cwr o Gymru.

Megan

CYFARFOD BLYNYDDOL
CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU
AWST 2020 (ar ZOOM)

AGENDA

1. Croeso gan y Cadeirydd – Megan Jones Roberts

2. Ymddiheuriadau

3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Awst 2019

4. Unrhyw faterion yn codi

5. Sylwadau byr gan y Cadeirydd am ddatblygiadau'r flwyddyn

6. Derbyn yr adroddiad ariannol

7. Ethol Swyddogion

- Cadeirydd
- Is-gadeirydd
- Trysorydd
- Ysgrifennydd

8. Unrhyw fater arall o bwys

ANRHYDEDDU GWIRFODDOLWYR

Eleni, tro gwirfoddolwyr eisteddfodau'r de oedd hi i gael eu henwebu, a'u hanrhydeddu, am eu gwaith a'u cyfraniad i'w heisteddfodau lleol.

Ar ddiwrnod Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, yn Nhregaron, 'roedd hyn i fod digwydd wrth gwrs, ond yn anffodus nid yw'n bosib cynnal unrhyw ddigwyddiad dan yr amgylchiadau digalon presennol.

Edrychwn ymlaen yn fawr, felly, at 2021, gan obeithio y medrwn fwrw 'mlaen â'r drefn arferol.

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU AWST 2019

Yn bresennol: Megan Jones Roberts (Cadeirydd), Bill Davies (Is-gadeirydd), Gwyn Parry Williams (Ysgrifennydd), Gareth Jones (Trysorydd), Shân Crofft (Swyddog Datblygu), Lois Williams (Swyddog Technegol) ynghyd ag oddeutu 75 o gynrychiolwyr o wahanol eisteddfodau.

Ymddiheuriadau: Cynrychiolwyr o eisteddfodau Mynydd y Garreg, Powys, Bodffordd a Môn.

Croeso: Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

1. Anrhydeddu gwirfoddolwyr

Ar ddechrau'r cyfarfod, cynhaliwyd seremoni i anrhydeddu'r gwirfoddolwyr canlynol sydd wedi gweithio'n ddiflino er budd eisteddfodau lleol yn y Gogledd tros nifer helaeth o flynyddoedd. Cadeiriwyd y seremoni gan Megan Jones Roberts, Cadeirydd y Gymdeithas, gyda Garry Owen, BBC Cymru yn cyflwyno'r tystysgrifau i –

- Jean Bennett – Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn
- Alun Watkin Bunford – Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys
- Arthur Davies, Dei Davies, Gwilym Bryniog Davies – Eisteddfod Bethel, Melin y Coed
- Glenys Davies, Gwyn Griffith, Idris Jones a Mary Roberts – Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
- John Talog Davies, Julia Evans, Thomas Morris a Tom Morris – Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant
- Sydna Ellis – Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn
- Gaynor Evans, Ann Jones, Meryl Metcalfe ac Aelwen Williams – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy
- Ann P. Jones a Nesta Jones – Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch
- Evan Jones – Eisteddfod Môn
- Frances P. Jones ac Idris Alan Jones – Eisteddfod Bro Llandegfan
- Jean Jones – Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth
- Mair Jones, Rob Lewis Jones a Gwen Williams - Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn
- Mari Jones – Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
- R. Derfel Roberts – Eisteddfod Stesion Trawsfynydd
- Dilys Williams – Eisteddfod Ieuenctid Bontnewydd

Yn dilyn y seremoni anrhydeddu gwirfoddolwyr, estynnwyd croeso i Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg i'r cyfarfod. Fe'i gwahoddwyd i'r cyfarfod oherwydd y trafferthion a geid gyda banc yr HSBC i brosesu ffurflenni archeb banc mewn perthynas â thâl aelodaeth y Gymdeithas, gan eu bod yn uniaith Saesneg.

Diolchodd Aled Roberts am y croeso a nododd gan bod llawer o ganghennau banc wedi cau, bod yna ansicrwydd parthed dyfodol y sieciau. Tynnodd sylw at y problemau gyda mandad ambell i fanc ac mai un cwmni penodol sy'n gyfrifol am y sieciau. 'Roedd yn awyddus i'r Gymdeithas gyfeirio unrhyw broblem a gyfyd gan eisteddfodau i'w sylw. Nododd bod bob banc â Chynllun Iaith.

2. Cofnodion

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 7 Awst 2018.

3. Adroddiad y Cadeirydd ar ddatblygiadau'r flwyddyn

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol:

- Bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un prysur iawn i'r Gymdeithas gyda thipyn o gydweithio gyda gwahanol garfanau o bobl a mudiadau gan gynnwys pwyllgorau'r eisteddfodau lleol a chenedlaethol, cystadleuwyr, beirniaid, cyfeilyddion a.y.b.

- Bod y cydweithio rhwng y Gymdeithas a swyddogion y ddwy brifwyl yn dal i ddwyn ffrwyth a gobeithir y bydd rhagor o gydweithredu'n digwydd yn y dyfodol er budd pawb sy'n gweithio a gwirfoddoli er lles byd yr eisteddfodau.

- Y cynhaliwyd cyngerdd mawreddog dechrau Medi 2018 ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid i ddathlu ugain mlynedd ers y sefydlwyd y Gymdeithas. Cymerwyd rhan gan enillwyr cystadlaethau'r Gymdeithas tros y blynyddoedd.

- Diolchodd i Gwmni Teithio Elfyn Thomas am gytuno i noddi'r raffl ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- Y gwneir mwy o ddefnydd o'r wefan erbyn hyn a bod cynnydd yn y rhaglenni a ymddangosir arni ac sy'n cael eu lawrlwytho. Yn ogystal, gwelir mwy o ganlyniadau a lluniau'n ymddangos arni – hyn yn arwydd bod modd marchnata'r eisteddfodau yn rhad ac am ddim i ddarpar gystadleuwyr drwy ddefnyddio'r wefan.

- Gwelir cynnydd mawr yn y defnydd o'r Gweplyfr a "Twitter", sy'n ychwanegu'r modd yr hysbysebir negeseuon a chysylltu gydag eraill yn rfhwydd ac am ddim. Nododd ei bod yn bwysig y defnyddir y cyfryngau hyn er mwyn ehangu'r neges am waith y Gymdeithas.

- Mae mwy o bobl wedi tanysgrifio yn ystod y flwyddyn i dderbyn 'Steddfota.

- Tynnodd sylw bod gan y Gymdeithas stondin ddwbl ar y maes eto eleni a stondin llai yn yr Ŵyl Cerdd Dant, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac Eisteddfod Cymru y Ffermwyr Ifanc.

- Y sefydlwyd Eisteddfod yng Nghaerdydd yn dilyn llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yno y llynedd a chynhelir yr eisteddfod gyntaf yn Ionawr 2020.

- Cyfeiriodd at y gwahanol weithgareddau a gynhelir ar y stondin yn ystod yr wythnos ac at y ddwy gystadleuaeth yn y pafiliwn sef y Gystadleuaeth Gorawl a'r Gystadleuaeth Perfformio Darn Digrif.
- Y cynhaliwyd dau weithdy Ffatri Llais hyd yn hyn a disgwylir y cynhelir yr un olaf yn yr Hydref.
- Y cedwir cyfrif o nifer yr ymwelwyr â'r stondin yn ystod yr wythnos.
- Y disgwylir y gellir denu grant yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Cynllun Mentora Beirniaid. Mae Eric Jones a Sian Teifi yn fodlon ymgymryd â'r gwaith mentora.
- Diolchodd i'r ddau swyddog am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas ac hefyd i'r ysgrifennydd, trysorydd a'r is-gadeirydd.
- Diolchodd hefyd i'r holl wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo ar y stondin yn ystod yr wythnos.

4. Adroddiad y Trysorydd

Cyflwynodd y Trysorydd fantolen a oedd yn dangos yr incwm a'r gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2019.

Cytunodd y Cyfarfod Blynyddol i dderbyn y fantolen ariannol.

5. Ethol Swyddogion

(Cymerwyd y gadair ar gyfer yr eitem hon gan Rhian Williams)

Ail-etholwyd y canlynol yn swyddogion am 2019/20:

Cadeirydd – Megan Jones Roberts
Is-gadeirydd – Bill Davies
Trysorydd – Gareth Jones
Ysgrifennydd – Gwyn Parry Williams

Diolchwyd i Megan Jones Roberts am ei gwaith fel Cadeirydd y Gymdeithas.

GWEITHGAREDDAU A DATBLYGIADAU'R FLWYDDYN - CRYNODEB

Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy, Llanrwst 2019

- Stondin ddwbl - llwyddiant
- Y Gystadleuaeth Gorawl - 9 côr yn cystadlu. Safon arbennig, â Chôr Dre, Caernarfon yn fuddugol
- Cystadleuaeth Perfformio Darn Digri (ac Ysgoloriaeth y Gymdeithas) - 3 yn cystadlu. Dyfarnwyd y wobr gyntaf i Lisa Erin Owen, Bala. Nid oedd y safon yr hyn o obeithiwyd, a chytunwyd i atal yr Ysgoloriaeth.
- Nifer o weithgareddau wedi eu cynnal yn enw'r Gymdeithas:
  Sesiwn Lenyddol yr Ifanc gyda'r Prifardd Ifor ap Glyn
  Dwy sesiwn farddoni - un gyda Gruffudd Owen, Bardd Plant Cymru, ac un gydag Anni Llŷn
  Dwy sesiwn glocsio gyda Tudur Phillips
  Gweithdy Cymeriadu gyda Iwan John
- Lansiwyd testunau llên Eisteddfod Caerdydd gyda Cherddorfa Ukelele Caerdydd yn diddanu
- Criw Stwnsh S4C yn galw'n ddyddiol i feirniadu'r cystadlaethau ar y stondin
- Tynnwyd y Raffl Fawr ar y Sadwrn olaf

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Y Wefan: Nifer o dudalennau a agorwyd o 24/7/2019 - 3/8/2020 **58,628**

Facebook: **2,177** yn dilyn tudalen Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Twitter: **786** yn dilyn @steddfota16

Mae cynnydd eto wedi bod yn nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol mewn blwyddyn, ond gwelwyd cwymp yn y nifer o dudalennau a agorwyd ar ein gwefan. Credir fod hyn o ganlyniad i effaith Covid-19 a chanslo/gohirio'r holl eisteddfodau ers canol mis Mawrth eleni - golyga hyn wedyn nad oedd angen mynd i chwilio am raglenni na thestunau llenyddol, er enghraifft.

Cefnogi a chyd-weithio gydag eisteddfodau

- Cyngor a gwybodaeth gyffredinol
- Dylunio rhaglenni a deunydd marchnata
- Grantiau - prosiectau penodol
- Sgen Ti Dalent
- Y Raffl Fawr
- Hyrwyddo eisteddfodau ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- Dosbarthu canllawiau yn ôl y galw e.e "Trefnu Eisteddfod" a "Gwasanaethau'r Gymdeithas"
- Sawl ardal arall wedi cysylltu ynglyn ag ail-ddechrau neu sefydlu eisteddfodau, sef - Porthtywyn a Phenbre, Aberaeron, Sgeti (Abertawe), Bwlchygroes a'r Rhondda (yn cynnal eu heisteddfod gyntaf ym mis Awst 2020, ar-lein)

Steddfota - cynnydd eto yn y cylchrediad a'r nifer sy'n dymuno derbyn copi electronig neu trwy'r post

Gŵyl Cerdd Dant Llanelli a'r Cylch, 2019

Stondin yn yr ŵyl i werthu tocynnau raffl ac i ddosbarthu rhaglenni eisteddfodau lleol, yn ogystal â Steddfota a rhai canllawiau

Eisteddfod CFfl Cymru 2019

Nid oedd y swyddogion nag unrhyw wirfoddolwyr ar gael i fynychu'r eisteddfod

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020

Yn anffodus bu'n rhaid gohirio'r Ŵyl tan 2021 oherwydd pandemig Covid-19

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

Fel pob digwyddiad o'r fath bu'n rhaid gohirio'r Brifwyl hefyd, tan 2021

Gweithgareddau

- Fel canlyniad i amgylchiadau anffodus y pandemig Covid-19, bu'n rhaid derbyn gwybodaeth gan bwyllgorau eisteddfodau lleol ynglyn â'r penderfyniad anodd i ganslo neu gohirio'r eisteddfodau, ers canol Mawrth. Cafodd yr holl fanylion eu nodi ar ein gwefan a'u rhannu ar dudalen Facebook a chyfrif Twitter y Gymdeithas. Diweddarwyd popeth yn ôl y galw.
- Rhannu gwybodaeth (drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy ebyst) ynglyn â chynnal eisteddfod ar-lein, wedi i Eisteddfod Capel y Groes, Ceredigion, wneud hynny'n llwyddiannus iawn ym mis Ebrill. Erbyn hyn mae canllawiau ar gael i annog eisteddfodau eraill sy'n ystyried y posibilrwydd o wneud yr un fath, gyda'r posibilrwydd hefyd o gynnal hyfforddiant perthnasol, gydag arweiniad Bro360.
- Cysylltu gyda llenorion ifanc a chorau sy'n arfer cystadlu i weld sut mae'n nhw'n dygymod â'r sefyllfa o ddiffyg cyfleoedd cyfarfod a chystadlu, a pha drefniadau amgen maent wedi'u hystyried dros y cyfnod clo.
- Gan nad oedd y gweithgareddau arferol wedi'u cynnal eleni, penderfynwyd gosod amryw o gystadlaethau, a'u rhannu ar-lein - Cystadleuaeth Lenyddol, Cystadleuaeth Lenyddol i Ddysgwyr a Chystadleuaeth Ffotograffiaeth - gyda 2 gategori oedran ym mhob un.

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAI 2020

	2018/19	2019/20
	£	£
Incwm		
Llywodraeth Cymru	45,056	46,036
Grant arall	7,480	980
Nawdd a Rhoddion eraill	1,975	1,485
Tanysgrifiadau	1,678	1,583
Raffl y Gymdeithas	1,628	1,422
Incwm arall	1,251	0
	59,068	**51,506**
Gwariant		
Cyflogau Swyddogion Datblygu	29,894	29,170
Costau swyddfa Swyddogion Datblygu	7,804	4,988
Gweithgareddau a phrosiectau:		
Gweithgareddau eisteddfodau	5,325	3,029
Gweithgareddau yn yr eisteddfodau cenedlaethol	6,777	6,635
Cyngerdd Dathlu	3,607	0
Argraffu a phrynu nwyddau ac offer eraill	3,497	2,585
Costau rheolaeth a gweinyddol	1,579	1,231
	58,483	**47,638**
Gweddill am y flwyddyn	**585**	**(3,868)**

Mantolen - 31 Mai 2020

	2019	2020
	£	£
Asedau cyfredol		
Dyledwyr	8,776	8,776
Arian yn y banc	1,154	4,443
	9,930	13,219
Credydwyr		
Incwm gohiriedig	0	0
Credydwyr – dyledus o fewn blwyddyn	(4,800)	(4,221)
Asedau net	**5,130**	**8,998**
Cronfa wrth gefn		
Ar ddechrau'r flwyddyn	4,545	5,130
Gweddill am y flwyddyn	585	3868
Ar ddiwedd y flwyddyn	**5,130**	**8,998**

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru